# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy Rhagfyr 2011


## Diwedd y Flwyddyn

Daeth mis Rhagfyr â diwedd blwyddyn arall. Ond doedd hynny ddim yn golygu diwedd ar y gwaith! Roedd pawb yn brysur tu hwnt ar ddechrau'r mis yn paratoi at gloi blwyddyn arall o waith gyda chyngherddau a gweithgareddau diwedd y flwyddyn.
Dyma hanes rhai ohonyn nhw…



**Gweithdai Ysgol Feithrin y Gaiman**

Symudodd yr Ysgol Feithrin i neuadd yr Eglwys Fethodistaidd ar yr ail o Ragfyr. Drwy gydol y flwyddyn mae'r plant wedi mwynhau gwahanol weithdai - dawnsio gwerin, canu, celf, coginio, ymarfer corff, a darllen stori - ac roedd cyfle i'w gwneud i gyd mewn un prynhawn. Roedd cornel ganu gyda Cinthia Zamarreño, coginio bisgedi gyda Lidia Muños, darllen stori'r geni gyda Lois Dafydd, addurno bagiau gydag Angelica Evans, a gêmau gyda Paloma Pugh. Cafodd pawb lawer o hwyl, cyn dod at ei gilydd i fwyta'r bisgedi lliwgar a blasus!





**Ysgol Gerdd y Gaiman**

Brynhawn Sadwrn y 3ydd o Ragfyr, cynhaliodd Ysgol Gerdd y Gaiman gyngerdd yn neuadd Ysgol 100 y pentref. Derbyniodd rhai o'r disgyblion dystysgrifau ac anrhegion cyn i aelodau'r Ysgol Gerdd o bob oedran berfformio – yn gantorion ac yn offerynwyr - gan gyflwyno teyrnged i'r awdures boblogaidd, Maria Elena Walsh. Cafwyd perfformiadau lliwgar cyn i gorau ac unawdau'r ysgol gydganu darn a gyfansoddwyd gan Hector Ariel Macdonald yn arbennig at yr achlysur.

**Ysgol Camwy**

Nos Sadwrn y 10fed o Ragfyr, roedd disgyblion, athrawon, teuluoedd a chyfeillion Ysgol Camwy yng nghampfa'r Gaiman ar gyfer dathliad diwedd y flwyddyn. Gorymdeithiodd y 3ºpol i'r neuadd yn gwisgo capiau graddio o bob lliw, a derbyniodd rhai disgyblion o'r gwahanol flynyddoedd dystysgrifau. Cyflwynwyd tystysgrifau hefyd i griw yr arddegau a basiodd arholiad Cymraeg CBAC fis Mehefin. Roedd yna berfformiad yn deyrnged i Maria Elena Walsh, a dangoswyd lluniau o yrfa ysgol 3ºpol ar sgrin fawr cyn i bob un ohonyn nhw dderbyn tystysgrif a chael eu llun wedi'i dynnu gyda'u teuluoedd. Canodd 2ºpol deyrnged i'w cyd-ddisgyblion wrth iddyn nhw ddechrau ar gyfnod newydd yn eu bywydau. Llongyfarchiadau i bob un, a phob hwyl yn y dyfodol!




Darllenwch fwy ar y dudalen nesaf...

**Ysgol yr Hendre**



Ddydd Mawrth Rhagfyr 13eg roedd theatr Escuela de Arte Trelew dan ei sang gan fod cwrdd diwedd tymor Ysgol yr Hendre yn cael ei gynnal yno. Gyntaf roedd plantos yr Ysgol Feithrin (5 oed) yn cael eu tystysgrifau yn barod i ddechrau'r ysgol go iawn y flwyddyn nesaf, ac i ddilyn bu sioe liwgar dros ben yn adrodd taith o gwmpas y byd. Wrth ymweld â´r gwahanol wledydd roedd cyfle i´r plant ganu caneuon pwrpasol yn Gymraeg a Sbaeneg, dangos gwisgoedd a dawnsio hwyliog. Roedd yr ymweliad â gwlad yr Aifft yn hynod o drawiadol, heb sôn am yr 'haka' bygythiol yn Seland Newydd. Y diweddglo oedd dod yn ôl adref i´r Ariannin lle mae ein bywyd a´n calon. Rhaid llongyfarch plant, staff, a rhieni yr ysgol am baratoi noson arbennig. Ac wrth adael cafodd pawb gynnig 'pica bach' (Cymru) a 'tortas fritas' (Ariannin) blasus wrth y drws. Diolch yn fawr i bawb.



**Ysgol Feithrin y Gaiman**

Nos Sadwrn yr 17eg o Ragfyr cafodd Ysgol Feithrin y Gaiman ei chwrdd diwedd tymor yn Hen Gapel Bethel. Roedd y lle yn orlawn wrth gwrs. Canwyd anthem yr Ariannin a Hen Wlad Fy Nhadau ar y dechrau, a'r plant oedd yn gadael y meithrin yn cael eu tystysgrifau gyda chydnabyddiaeth i´r staff gweithgar sydd wedi ymdrechu ar hyd y flwyddyn. I ddilyn, roedd sioe Gymraeg gan y plant yn portreadu'r gwanwyn gydag actio a chanu. Wedyn cafwyd hanes y pili-pala a gwas y neidr - drama fer yn cael ei hactio gan staff yr ysgol i ddangos pwysigrwydd bod yn ffrindiau a chydweithio. Daeth y cwrdd i ben gyda sain y clychau'n croesawu Siôn Corn a´i sach o anrhegion i´r plant. Noson hapus, llongyfarchiadau!



**Comodoro**

Daeth llawer ynghyd i ddathlu'r Nadolig efo cinio yng Nghanolfan Cymdeithas Dewi Sant Comodoro Rivadavia ddydd Sul 18fed Rhagfyr. Adroddodd Nanny Davies a chanodd Liliana Freeman yn Gymraeg, ac i ddilyn bu'r gynulleidfa'n canu carolau. Braf oedd croesawu'r Br Eilyw Pritchard, sy'n dod ymlaen yn ardderchog ar ôl llawdriniaeth ym Muenos Aires. Cyn diwedd y dathlu, daeth Santa ag anrhegion i'r plant!



**Dewi Sant**

Nos Fawrth 20fed Rhagfyr bu Cyngerdd Nadolig yn Neuadd Dewi Sant Trelew. Cafwyd carolau gan y gynulleidfa, deuawd ar y ffidl gan Elen Junyent a Dylan Hughes, eitem ar y ffliwt gan Gonzalo Lizama, carolau gan bedwarawd Judith Jones, Caren Jones, Santiago Palacios a Roberto Jones, llefaru gan Romina Herrera, a hanes y geni yn urddasol a lliwgar gan blant y gweithdy cerddoriaeth a dawnsio sy'n cael eu trefnu gan Gymdeithas Dewi Sant. Cafodd yr hanes ei adrodd yn syml gan Cecilia Avendaño a phlant, ac unawdwyr yn canu carolau pwrpasol yn Gymraeg a Sbaeneg. Llongyfarchiadau i Judith Jones a Graciela Colasante a phawb arall a baratôdd y noson hon.

# Gwasanaeth Nadolig



Cynhaliodd dosbarthiadau Cymraeg y Gaiman a Dolavon wasanaeth Nadolig ar Sul cyntaf mis Rhagfyr. Cyrhaeddodd cynulleidfa dda i Gapel Bethel y Gaiman i sain Nadoligaidd Cinthia Zamarreño ar y ffliwt, a chafodd y gwasanaeth ei agor gyda gwragedd Dosbarth Darllen Juan Davies yn cydadrodd Gweddi'r Arglwydd.

Paratowyd rhaglen y gwasanaeth yn gynhwysfawr ac yn amrywiol wrth i aelodau a chyfeillion y dosbarthiadau Cymraeg godi i'r sedd fawr yn eu tro.



Roedd nifer o eitemau cerddorol gyda'r Côr Merched yn canu'r garol 'Trysor y Crud' dan arweiniad Edith Macdonald, a'r Parti Plygain berfformio'r garol blygain 'Ar gyfer heddiw'r bore'. Roedd tri unawd wrth i Roberto Jones ganu'r emyn 'Y Brenin Tlawd', Andrés Evans ganu'r garol 'Pa fwyn beroriaeth?', a Billy Hughes berfformio'i ddehongliad ei hun o gân Meic Stevens, 'Noson Oer Nadolig'. Roedd deuawd o 'Drosom ni' gan Ana Lyn a Lisa Hughes, ac arweiniodd Sylvia Baldor grŵp llinynnol wrth iddyn nhw berfformio carol gan J. S. Bach.

Wrth gwrs, bu'r gynulleidfa doreithiog hefyd yn canu wrth i Vilda a Sabrina Ferrero ('Tawel Nos'), Deborah Vázquez ('Ni a gawsom y Meseia'), Celeste Filipponi, Aixa Orive a Cinthia Zamarreño ('O! Deuwch Ffyddloniaid'), a Clare Whitehouse ('Clywch Lu'r Nef') ledio carolau. Llanwyd y capel â chanu angerddol a soniarus dan arweiniad Gladys Thomas ac i gyfeiliant Judith Jones ar yr organ, Hector Ariel Macdonald ar yr allweddellau, a'r grŵp llinynnol.



Daeth aelodau dosbarth hŷn yr ôl-feithrin (Hefin Green, Iwan Williams, a Martin Hughes) i'r sedd fawr i adrodd y gerdd 'Nadolig' gan D. J. Thomas, ac i gasglu'r offrwm cyn i Luned Gonzalez roi'r diolchiadau a'r cyhoeddiadau. Casglwyd $820 tuag at yr ysbyty lleol - diolch i bawb am eu cyfraniadau hael.

Cafwyd darlleniadau o'r Beibl gan Glenda Thomas (Mathew 1:18-23) a Dosbarth Sgwrsio Dolavon (Eseia 9:2-7), gyda Lois Dafydd yn cyflwyno neges y Nadolig yn seiliedig ar y darlleniadau. Soniodd am yr holl ddisgwyl a'r holl baratoi a fu at y Nadolig cyntaf, fel mae pobl yn disgwyl ac yn paratoi ar gyfer y 25ain o Ragfyr heddiw, gan annog y gynulleidfa i beidio ag anghofio gwir reswm y dathlu, sef genedigaeth Iesu Grist.



Daeth y gwasanaeth i ben gyda phawb yn cydadrodd y fendith, cyn cymdeithasu a dymuno Nadolig Llawen i'w gilydd yng nghynhesrwydd yr haul y tu allan i'r capel.

Diolch i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth.

# Holi Aixa Orive...



1. **Ble cawsoch chi eich geni?**
   *Ces i fy ngeni yn ysbyty Trelew, ond yn byw erioed yn Gaiman.*

2. **Ble a sut ddysgoch chi Gymraeg?**
   *Dechreuais ddysgu Cymraeg yn yr Ysgol Feithrin pan oeddwn i'n flwydd a hanner, a wedyn es i i'r dosbarth gyda'r athrawon sy'n dod o Gymru. Ces i ddosbarth yn yr ysgol hefyd.*

3. **Beth ydy eich hoff air Cymraeg?**
   *Mmm… 'Cyfrifiadur', achos doeddwn i ddim yn gallu ei ddweud pan oeddwn i'n dysgu! Dwi'n hoffi 'Ardderchog' hefyd.*

4. **Beth ydych chi'n hoffi ei wneud?**
   *Dwi'n hoffi llawer o bethau. Dwi'n chwarae hoci, dwi'n canu yn y côr, dwi'n hoffi bod gyda ffrindiau, mynd i'r capel, mynd i'r ffarm...*

5. **Beth nad ydych chi'n hoffi ei wneud?** *Dwi ddim yn hoffi tacluso fy ystafell!*

6. **Ers pryd ydych chi'n gweithio yn Ysgol Feithrin y Gaiman?**
   *Dechreuais i eleni, a dwi'n helpu'r athrawon.*

7. **Beth ydych chi'n ei hoffi am weithio yn yr Ysgol Feithrin?**
   *Dwi'n hoffi plant bach a dwi'n gallu ymarfer Cymraeg hefyd. Mwynheais i weithio yn yr Ysgol Feithrin, dysgais i lawer o bethau.*

8. **Beth ydych chi'n mynd i'w wneud y flwyddyn nesaf?**
   *Flwyddyn nesaf, byddaf yn mynd i astudio bydwreigiaeth yn La Plata.*

9. **Beth yw eich hoff fwyd?**
   *Asado, wrth gwrs! Ond dwi'n hoffi bwyd melys fel teisen, pwdinau...*

10. **Beth yw eich cas fwyd?** *Dwi'n bwyta bron popeth, ond dwi ddim yn hoffi locro!*

11. **Ble mae eich hoff le yn y byd?** *Gaiman, fy nghartref - heb amheuaeth.*

# Y Plygain

Enw ar wasanaeth carolau traddodiadol oedd yn arfer cael ei gynnal yn eglwysi'r plwyf yng Nghymru rhwng tri a chwech o'r gloch ar fore'r Nadolig yw'r 'Plygain'. Byddai llawer o bobl yn mynd â chanhwyllau gyda nhw i'r gwasanaeth er mwyn goleuo'r eglwys, a daeth hynny'n rhan bwysig o'r ŵyl. Roedd y plygain yn boblogaidd rhwng yr 17g a'r 19g, ac mae'r diddordeb wedi ailgynnau dros y blynyddoedd diwethaf. Ond erbyn hyn mae'r gwasanaeth yn dueddol o gael ei gynnal ar unrhyw noson ym mis Rhagfyr, ac nid o reidrwydd yn eglwys y plwyf.

Does dim rhaglen wedi'i threfnu ymlaen llaw, a bydd unawdwyr a phartïon yn canu ym mlaen yr eglwys yn eu tro. Pan fydd pawb wedi canu unwaith, byddan nhw i gyd yn canu unwaith eto yn yr un drefn, ac mae'n rhaid i bawb ganu carol wahanol. Mae'r



carolau plygain yn wahanol i'r carolau arferol, gan sôn am enedigaeth Iesu Grist, ei fywyd, ei groesheoliad, a'i atgyfodiad. I orffen y gwasanaeth, bydd yr holl ddynion (unawdwyr ac aelodau o'r partïon) yn dod at ei gilydd i ganu Carol y Swper, a hon yw'r garol olaf i gael ei chanu ym mhob gwasanaeth plygain cyn i bawb fynd i'r festri i fwyta swper.

# Taith i'r Andes



Aeth criw 3ºpol Ysgol Camwy ar daith i'r Andes yn ystod wythnos olaf mis Tachwedd.

Ar ôl llwytho'r bws gyda digonedd o fwyd a mate i bara pum niwrnod (os nad hirach), cychwynnodd y daith hir ar hyd y paith. Er gwaetha'r glaw mân, cafwyd ymweliadau â 'Rocky Trip', creigiau gyda phaentiadau Indiaidd arnyn nhw, a Tecka, cyn cyrraedd cartref y criw am yr wythnos, sef cabanau Villa Azul ar gyrion Esquel.

Roedd amserlen yr wythnos yn llawn ymweliadau a gweithgareddau, a'r cyntaf ohonynt oedd taith ar La Trochita. Gadawodd yr hen drên stêm orsaf Esquel a theithio am ryw awr rhwng y mynyddoedd a'u golygfeydd godidog, nes cyrraedd pentref tawel Nahuel Pan. Allai neb ymwrthod â phrynu'r tortas fritas cynnes! A'r prynhawn hwnnw aethpwyd ar ymweliad â gweithdy metal El Maiten, lle'r oedd dynion wrthi'n cyweirio'r peiriannau. Buasai wedi bod yn dda cael eu help llaw'r noson honno, pan dorrodd y bws i lawr am bedair awr ar y ffordd nôl i'r cabanau. Ond roedd pawb mewn hwyliau da yn canu, sgwrsio, a chwarae gêmau cardiau - yn Gymraeg a Sbaeneg! Roedd ymweliadau eraill yr wythnos yn cynnwys taith i barc cenedlaethol Los Alerces, rhaeadrau trawiadol, 'Pinturas Rupestres', ac argae Futalefu.



Roedd y 25ain o Dachwedd yn nodi pen blwydd Trevelin, ac ymunodd y criw â'r dathliadau. Yn ôl yr arfer, ailgrewyd cymal olaf taith y Rifleros ar y 24ain - ond nid cyn i bawb fwynhau asado. Roedd y selsig a'r cig yn flasus dros ben! Wedi i bawb sicrhau digon o egni dechreuodd y daith i gopa Craig Goch, rhai ar droed ac eraill ar gefn ceffylau. Mentrodd rhai dewr i fyny'r llwybr serth! Ar ôl dwy awr dda, cyrhaeddodd bawb y copa lle'r oedd baner yr Ariannin yn chwifio yn yr awel. Hawdd oedd deall pam mae'r cwm islaw wedi'i enwi'n 'Cwm Hyfryd' wrth i'r haul wenu'n braf ar y caeau gwyrddion eang. Ar y graig cynhaliwyd seremoni fer i goffáu'r Rifleros gwreiddiol a agorwyd gydag anthem yr Ariannin, a chriw Camwy yn canu 'Hen Wlad Fy Nhadau i gloi. Yna cerdded i lawr cyn iddi dywyllu. Braint oedd cael cynrychioli'r ysgol a'r Gaiman yn yr orymdaith flynyddol a gynhaliwyd ger sgwâr Trevelin y diwrnod canlynol. Pen Blwydd Llawen Trevelin!



Y noson honno, sef noson olaf y daith, cafwyd ail asado'r wythnos, a hynny ar fferm Charlie a Margarita Green. Ar ôl mynd am dro ar dir y fferm, chwarae pêl-droed a phêl-foli, roedd pawb wedi magu chwant bwyd. Ac roedd digon o gig a salad blasus i'w gael! Dilynwyd y pryd bwyd gydag amryw o gêmau difyr, a daeth y noson i'w therfyn dan gydganu 'Hen Wlad Fy Nhadau'.

Fore trannoeth, llwythwyd y bws unwaith eto cyn troi'n ôl am y Gaiman. Am wythnos ragorol!

# Buenos Aires

Daeth gwaith Menter Patagonia 2011 i ben gyda noson arbennig ym Muenos Aires.

Nos Lun y 12fed o Ragfyr, ymunodd rhai o drigolion a myfyrwyr y brifddinas ag Iwan Madog a Lois Dafydd yn El Emergente Bar, sydd yn ardal Palermo. Cafwyd amser braf iawn, a'r noson yn gyfle gwych i gymdeithasu gyda chyfeillion hen a newydd, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg.

Edrychwn ymlaen at y cyfarfod nesaf yn barod!



Cymdeithas Dewi Sant

7 Rhagfyr 2011

Annwyl Bwyllgor,

Diolch yn fawr i chi am gael defnyddio'r ystafell arbennig hon yn Neuadd Dewi Sant ar gyfer ein dosbarth Cymraeg gyda 'Menter Patagonia' bob dydd Gwener rhwng 15 ac 16 o'r gloch.

Tan y flwyddyn nesaf,

Sgwrs Trelew

# Cyngerdd Côr ABC

Roedd 'na wledd yng Nghanolfan y Morlan Aberystwyth nos Sadwrn olaf Tachwedd wrth i gôr ABC berfformio 'Aberystwyth', sef gwaith gwreiddiol gan Hector Macdonald, am y tro cyntaf erioed. Ysgrifennwyd y geiriau ar gyfer y gwaith gan feirdd sy'n gysylltiedig â'r côr - sef y Prifeirdd Dafydd John Pritchard, Huw Meirion Edwards, Hywel Griffiths, Gwenallt Llwyd Ifan ac Arwel Rocet Jones, Eurig Salisbury, Iwan Bryn James, Lisa Tiplady - ac roedd y cyfanwaith yn sôn am wahanol agweddau ar dref Aberystwyth ar amrywiol adegau o'r dydd a'r flwyddyn.



Dywedodd Angharad Fychan, arweinydd y côr, "Cefais fy mhlesio yn fawr iawn 'da'r perfformiad - roedd y cyfan yn wefreiddiol a diolch i'r côr am weithio mor galed - yn enwedig yn ystod yr wythnosau diwethaf."

Bu'r côr yn ffodus i gael dau unawdydd i'w cynorthwyo, sef Helen Medi Williams a Barry Nudd Powell.

Codwyd dros £2,000 o bunnau at elusen canser y fron ac addysg Gymraeg yn y Wladfa. Y Sul canlynol fe fu'r côr yn recordio'r gwaith ar gyfer Radio Cymru - ac fe fydd modd clywed y darllediad yn ystod wythnos gyntaf mis Ionawr.

Sarah Down

## Cornel y Dysgwyr — *Rincon de aprenda Galés*

### Nadolig / *Navidad*

| | |
|---|---|
| Nadolig Llawen! | *Feliz Navidad!* |
| Iesu Grist | *Jesúcristo* |
| Mair a Joseff | *María y José* |
| Bethlehem | *Belén* |
| anrheg(ion) | *regalo(s)* |
| carol(au) | *villancico(s)* |
| coeden Nadolig | *árbol de Navidad* |
| bugail/bugeiliaid | *pastor/pastores* |
| doethion | *reyes magos* |
| addurn(iadau) | *decoracion(es)* |
| seren | *estrella* |
| angel/angylion | *ángel/ángeles* |
| Blwyddyn Newydd Dda! | *Feliz Año Nuevo!* |

# Y Fari Lwyd



Mae'r Fari Lwyd yn draddodiad sy'n cael ei gynnal yng Nghymru yn ystod y cyfnod rhwng y Nadolig a'r Ystwyll. Penglog ceffyl gyda rhubanau lliwgar arno ac wedi'i osod ar bolyn yw'r Fari Lwyd, gyda dyn yn dal y polyn o dan ddarn o gynfas wen gan esgus mai ef yw corff y ceffyl, ac yn symud ceg yr anifail.

Datblygodd y Y Fari Lwyd yn ystod y 19g yn ardaloedd Gwent a Morgannwg yn ne Cymru yn bennaf, ac mae'n debyg bod ei gwreiddiau mewn arferion paganaidd. Dydy'r traddodiad ddim mor boblogaidd erbyn hyn, ond mae'r arfer wedi ailddechrau yn ardaloedd Pentyrch a'r Creigiau.

Byddai dynion yn arwain y Fari Lwyd o dŷ i dŷ gyda'r nos, ac yn canu penillion wrth agosáu at y drws. Roedd y penillion hyn yn gofyn am fynediad i'r tŷ, a'r bobl y tu fewn hefyd yn ateb ar gân. Byddai'r ddwy ochr yn canu pennill ar ôl pennill yn herio ei gilydd nes i'r Fari Lwyd a'i chriw gael mynediad i'r tŷ. Yn y tŷ byddai'r perchnogion yn cynnig bwyd a diod i'r ymwelwyr.



Dyma enghraifft o ddau bennill cyntaf y canu:

Tu allan: Wel dyma ni'n dwad
Gyfeillion diniwad
I ofyn am gennad i ganu.

Ateb: Rhowch glywad wŷr difrad
O ble ry'ch chi'n dwad
A beth yw'ch gofyniad gaf enwi.

# Boncyff Siocled

## - teisen flasus at y Nadolig



Cynhwysion y sbwng:
55g menyn
115g siwgr
2 ŵy
115g blawd codi
1 llwy fwrdd powdr siocled wedi'i gymysgu â dŵr poeth

Cynhwysion yr eisin:
85g menyn
175g siwgr eisin wedi'i hidlo
2 lwy fwrdd powdr siocled
2 lwy de llaeth

Y sbwng: Cymysgwch y menyn a'r siwgr nes eu bod yn llyfn. Ychwanegwch yr wyau a chymysgu cyn ychwanegu'r blawd a'r powdr siocled. Cymysgwch y cyfan yn dda nes bod y gymysgedd yn llyfn.

Rhowch bapur pobi ar dun fflat, a thaenu haenen denau o fenyn arno. Arllwyswch y gymysgedd arno a'i roi i bobi yn y popty am 10-12 munud.

Pan fydd yn barod trowch y sbwng wyneb i waered, a rhowliwch y sbwng yn ofalus, fel bod y papur ar yr ochr fewn. Gadewch i oeri.

Yr eisin: Rhowch y cynhwysion i gyd mewn bowlen a'u cymysgu'n dda nes bod yr eisin yn llyfn.

Dad-rowliwch y sbwng yn ofalus, a thaenu hanner yr eisin arno cyn ei rowlio eto - heb y papur. Taenwch weddill yr eisin dros y deisen, a defnyddiwch fforc i greu effaith boncyff coeden!




# NADOLIG LLAWEN!

Cyfarchion yr ŵyl i'r holl ddarllenwyr.

Diolch yn fawr iawn i bawb am eich cefnogaeth dros y misoedd diwethaf. Bydd 'Clecs Camwy' nôl yn y flwyddyn newydd.

# Croesair Nadolig



**AR DRAWS**

1. MAE POBL YN RHOI UN O'R RHAIN I'W GILYDD (5)
5. PWY GAFODD EI ENI? (4, 5)
8. DAETH Â'R NEWYDDION DA I'R BUGEILIAID (4)
9. YM MHA FIS MAE'R NADOLIG? (7)
11. CÂN ARBENNIG ADEG Y NADOLIG (5)
13. BETH WELODD Y DOETHION YN YR AWYR? (5)
14. DOEDD DIM LLE YMA (4)
15. PA ANIFAIL SYDD GAN SIÔN CORN? (4)
16. *ACEBO* (5)
17. *HERODES* (5)
18. *FELIZ NAVIDAD* (7, 5)

**I LAWR**

1. ____, THUS, A MYRR (3)
2. PWY SY'N GOFALU AM Y DEFAID? (6)
3. MAE POBL YN EI HONGIAN UWCHBEN Y LLE TÂN (5)
4. *BELÉN* (8)
6. CIG SY'N CAEL EI FWYTA YNG NGHYMRU AR DDIWRNOD NADOLIG (5)
7. PWY YW MAM IESU? (4)
10. BETH OEDD ENW'R ANGEL SIARADODD GYDA MAIR? (7)
12. *NOCHE DE PAZ* (5, 3)
13. PWY SY'N DOD AG ANRHEGION I BLANT? (4, 4)
15. MAE'N CAEL EI ADDURNO YN Y TŶ (6)

**Cofiwch fod 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'rh' 'th' yn un llythyren!**


## Geirfa'r Mis / *Vocabulario del Mes*

| | | | |
|---|---|---|---|
| gweithdy | ***taller*** | croeshoeliad | ***crucifixión*** |
| teyrnged | ***homenaje*** | atgyfodiad | ***resurección*** |
| diweddglo | ***final*** | llwytho | ***cargar*** |
| llawdriniaeth | ***operación*** | digonedd | ***abundancia*** |
| offrwm | ***ofrenda*** | amserlen | ***horario*** |
| annog | ***fomentar*** | golygfa/golygfeydd | ***paisaje/s*** |
| genedigaeth | ***nacimiento*** | cynfas | ***lienzo*** |
| cynhesrwydd | ***calor*** | paganaidd | ***pagano*** |
| bydwreigiaeth | ***partería*** | doethuriaeth | ***doctorado*** |
| tacuso | ***ordenar*** | gwreiddiau | ***raíces*** |
| heb amheuaeth | ***sin duda*** | wyneb i waered | ***al revés*** |
| cyfraniad | ***contribución*** | boncyff | ***tronco*** |
| ailgynnau | ***reavivar*** | traddodiad | ***tradición*** |
| addurno | ***decorar*** | hidlo | ***damizar*** |

# Cornel y Plant

Lliwiwch y stabl ym Methlehem!

**NADOLIG LLAWEN BLANT!**



## Chwilair y Nadolig

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| g | b | e | th | l | e | h | e | m | h | p | m | c |
| t | u | ch | s | a | m | i | th | a | u | r | o | ch |
| p | g | w | f | y | ll | b | l | i | s | e | n | s |
| h | a | r | c | t | r | ng | w | r | d | s | t | u |
| ng | i | e | s | u | f | j | f | i | t | e | ff | r |
| d | l | s | e | g | dd | o | p | r | w | b | th | m |
| f | ph | c | r | n | e | b | m | l | j | g | b | y |
| j | o | s | e | ff | c | d | ng | p | d | ll | n | r |
| s | t | b | n | e | rh | m | u | a | ng | e | l | p |

Iesu
Bethlehem
Seren
Angel
Bugail
Preseb
Mair
Joseff

Os hoffech chi ysgrifennu neu gyfrannu at 'Clecs Camwy', neu ei noddi, cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2965 386 198